www.xtrapapers.com

| Cyfenw *Surname* | Rhif y Ganolfan *Centre Number* | Rhif yr Ymgeisydd *Candidate Number* |
|---|---|---|
| Enwau Eraill *Other Names* | | 0 |

CBAC WJEC

# TGAU

4551/02

## UNED 1
## *UNIT 1*

## CYMRAEG AIL IAITH
## *WELSH SECOND LANGUAGE*

## DARLLEN AC YSGRIFENNU
## *READING AND WRITING*

## HAEN UWCH
## *HIGHER TIER*

A.M. DYDD LLUN, 28 Mai 2012
*A.M. MONDAY, 28 May 2012*

1 awr/*1 hour*

4551 020001

| Arholwr yn unig | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Cwestiwn** | **Darllen** | **Ysgrifennu** |
| **1** | | |
| **2** | | |
| **3** | | |
| **4** | | |
| **CYFANSWM** | | |

### CYFARWYDDIADAU
### *INSTRUCTIONS*

Defnyddiwch inc neu feiro du. Peidiwch â defnyddio pensil na beiro gel. Peidiwch â defnyddio hylif cywiro.
*Use black ink or black ball-point pen. Do not use pencil or gel pen. Do not use correction fluid.*

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y bylchau ar ben y dudalen hon.
*Write your name, centre number and candidate number in the spaces at the top of this page.*

Atebwch **bob** cwestiwn.
*Answer **all** questions.*

Ysgrifennwch eich atebion ar y llinellau a ddarperir yn y papur cwestiynau hwn.
*Write your answers on the lines provided in this question paper.*

### GWYBODAETH
### *INFORMATION*

Rhoddir nifer y marciau a geir mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.
*The number of marks is given in brackets at the end of each question or part-question.*

Nodir y marciau a ddyfernir ar gyfer cywirdeb mynegiant o fewn y cwestiynau fel a ganlyn: [✓ = 2] ac ati.
*Marks awarded for accuracy of expression within the questions are indicated as follows: [✓ = 2] etc.*

M A Y 1 2 4 5 5 1 0 2 0 1

VP*(S12-4551-02)

www.xtrapapers.com



**1.** Darllenwch y cyfweliad isod gyda George North ac yna gwnewch y tasgau **yn Gymraeg**.
*Read the interview below with George North and then complete the tasks **in Welsh**.*

[24 + ✓ = 6] = **[30]**

*Croeso i'r stiwdio George North. Cawsoch chi eich geni yn Lloegr ond rydych chi'n siarad Cymraeg.*
Do, ces i fy ngeni yn King's Lynn yn Norfolk. Cymraes ydy mam a Sais ydy dad. Es i i'r ysgol gynradd yn Llangefni ac roeddwn i'n siarad Cymraeg yno ac efo mam wrth gwrs.

*Pa chwaraeon ydych chi'n hoffi? Rygbi wrth gwrs.*
Ie, dw i'n mwynhau chwarae rygbi. Hefyd, rydw i wrth fy modd yn chwarae golff, pêl-droed a beicio mynydd efo'r teulu a ffrindiau.

*Sut ydych chi'n ymlacio gyda'r nos? Ydych chi'n hoffi mynd i'r sinema?*
Ydw, dw i'n hoffi gwylio ffilmiau comedi ac antur ond mae'n gas gen i ffilmiau arswyd. Hefyd, dw i'n hoffi mynd allan efo ffrindiau a gwrando ar gerddoriaeth.

*Beth am hoff fwyd? Oes rhaid i chi fwyta'n iach?*
Oes wrth gwrs, felly rhaid i mi fwyta digon o lysiau a ffrwythau. Ond fy hoff bryd o fwyd ydy Sbageti Bolognese mam a chinio Nadolig dad.

*Pryd dechreuoch chi chwarae rygbi?*
Dechreuais i chwarae pan oeddwn yn un ar ddeg oed yng nghlwb rygbi Llangefni. Un dydd Sul, aeth fy mrawd a'i ffrindiau i'r clwb i chwarae rygbi am y tro cyntaf. Ar ôl dod adre dwedon nhw fod y gêm yn llawer iawn o hwyl. Felly, yr wythnos wedyn es i gyda nhw a mwynheuais i'r gêm yn fawr. Wedyn, roeddwn i'n chwarae rygbi bob wythnos i Langefni ac yn mwynhau.

*Wedyn pan oeddech yn un deg chwech oed symud o Ysgol Bodedern yn Sir Fôn i ysgol breifat Llanymddyfri.*
Ie, ac wrth gwrs roeddwn i'n cysgu yn yr ysgol yn Llanymddyfri ac yn cael cyfle i chwarae rygbi bob dydd. Roedd hyn yn wahanol i Fodedern wrth gwrs - ond roeddwn i wrth fy modd. Wedyn ymuno â Scarlets Llanelli ac ar ôl saith gêm cael cyfle i chwarae i Gymru yn Stadiwm y Mileniwm yn erbyn De Affrica.

*Cawsoch chi gêm dda iawn hefyd a sgorio dau gais.*
Do, roeddwn i'n lwcus iawn i sgorio dau gais yn fy ngêm ryngwladol gyntaf ond mae llawer o'r diolch yn mynd i glwb Llanelli achos ces i lawer iawn o help gan bobl fel Marc Jones a Stephen Jones. Doedd dim llawer o brofiad gen i ar y pryd ac roedden nhw yn gallu fy helpu i llawer iawn.

*Beth ydych chi'n mwynhau a ddim yn mwynhau am rygbi?*
Yn sicr dw i'n mwynhau mynd i'r gampfa i godi pwysau a gwneud fy nghorff yn gryf. Dw i hefyd yn mwynhau chwarae ar yr asgell achos mae cyfle a lle i redeg a sgorio cais neu ddau. Dw i ddim yn mwynhau cael anafiadau a brifo - torrais i asgwrn yn fy ysgwydd ac roedd yn boenus iawn.

*Erbyn hyn, rydych chi wedi dod adref o Seland Newydd. Beth ydych chi'n gofio am Gwpan y Byd?*
Wel, rydw i'n cofio sgorio dau gais yn erbyn Namibia ac felly torri'r record o fod y chwaraewr ifanca i sgorio cais yng Nghwpan y Byd. Hefyd, rydw i o hyd yn meddwl am y gêm yn erbyn Ffrainc a'r siom o golli 9 i 8. Ond wrth gwrs, rydyn ni fel tîm yn hapus iawn gyda'n perfformiad yng Nghwpan y Byd.
Hoffwn i fynd i Seland Newydd eto achos mae'n wlad hyfryd.

www.xtrapapers.com





Llenwch y proffil am George North **yn Gymraeg**.
*Complete the profile about George North **in Welsh**.* [24]

Geni .................................................................................................... [1]

Siarad Cymraeg - Gyda phwy? ........................................................................ [1]

Ble? .................................................................................................... [1]

Hoff chwaraeon (i) rygbi

(ii) .................................................................................................... [1]

(iii) .................................................................................................... [1]

(iv) .................................................................................................... [1]

Hoff ffilmiau (i) .............................................. [1] (ii) .............................................. [1]

Cas ffilmiau .................................................................................................... [1]

Hoff fwyd (i) .............................................. [1] (ii) .............................................. [1]

Dechrau chwarae rygbi – (i) Oed? ........................................................................ [1]

(ii) Ble? ........................................................................ [1]

Pam dechreuodd George chwarae rygbi? ........................................................................

.................................................................................................... [2]

Ysgol Llanymddyfri yn wahanol i Fodedern. Sut?

(i) .............................................. [1] (ii) .............................................. [1]

Chwarae yn erbyn De Affrica

(i) Ble? .................................................................................................... [1]

(ii) Sgorio sawl cais? ........................................................................ [1]

Pwy sy wedi ei helpu yng nghlwb Llanelli?

(i) .............................................. [1] (ii) .............................................. [1]

Yn mwynhau beth am rygbi

(i) .............................................. [1] (ii) .............................................. [1]

Ddim yn mwynhau am rygbi ........................................................................ [1]

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig
*Examiner only*

Ysgrifennwch **ddwy** frawddeg **yn Gymraeg** yn y **3ydd person** yn rhoi **dwy** ffaith am beth mae George yn ddweud yn y cyfweliad am Gwpan y Byd.
*Write **two** sentences **in Welsh** in the 3rd **person** giving **two** facts about what George says in the interview about the World Cup.* [✓ = 6]

(i) ..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

(ii) ..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

04

www.xtrapapers.com



**TUDALEN WAG**
***BLANK PAGE***

**PEIDIWCH AG YSGRIFENNU AR Y DUDALEN HON**
***PLEASE DO NOT WRITE ON THIS PAGE***

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig
*Examiner only*

**2.** Rydych chi wedi dathlu eich pen-blwydd dros y penwythnos ac rydych chi yn rhoi'r lluniau isod ar eich gweblyfr. Ysgrifennwch am y lluniau yn dweud beth wnaethoch chi.
*Last weekend you celebrated your birthday and you put the pictures below on your facebook. Write about the pictures saying what you did.*
Rhaid i chi ysgrifennu o leiaf **3 brawddeg yn Gymraeg** am bob llun.
*You must write at least **3 sentences in Welsh** about each picture.* [10 + ✓ = 10] = **[20]**




0 6

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig
*Examiner only*

4551
020007



**Trosodd.**
***Turn over.***

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig
*Examiner only*

www.xtrapapers.com



**TUDALEN WAG**
***BLANK PAGE***

**PEIDIWCH AG YSGRIFENNU AR Y DUDALEN HON**
***PLEASE DO NOT WRITE ON THIS PAGE***

www.xtrapapers.com



**3.** Darllenwch beth mae Iwan a Rhiannon wedi ysgrifennu mewn cylchgrawn newydd i bobl ifanc. Yna llenwch y gridiau **yn Gymraeg**.
*Read what Iwan and Rhiannon have written in a new magazine for young people. Then fill in the grids **in Welsh**.* [24 + ✓ = 6] = **[30]**

**Iwan**

Rydw i'n hoffi cael gwyliau ond mae'n well gyda fi rai mathau o wyliau nag eraill. Pan oeddwn i yn yr ysgol gynradd, roeddwn i'n hoffi mynd ar wyliau gyda'r ysgol. Erbyn hyn rydw i'n un deg chwech oed ac mae'n well gyda fi fynd ar wyliau gyda'r Clwb Ieuenctid achos dw i'n hoffi gwyliau antur. Gyda'r Clwb, rydyn ni'n dringo, canŵio a chysgu yn yr awyr agored mewn pabell. Mae'n gas gyda fi fynd ar wyliau gyda'r ysgol nawr achos mae'r athrawon yn llym a dydych chi ddim yn gallu ymlacio a chael hwyl.

Dw i'n gwneud rownd bapur saith diwrnod yr wythnos ac yn cael tri deg punt yr wythnos. Ond cofiwch, mae'n rhaid i mi godi am hanner awr wedi chwech bob dydd ac yn aml dw i wedi blino gormod gyda'r nos i wneud fy ngwaith cartref i gyd.
Rydw i'n gweithio bob dydd er mwyn cael tocyn awyren i deithio rownd y byd ar ôl gwneud Lefel A. Erbyn hyn dw i wedi casglu dau gant pum deg punt ac wrth gwrs mae gyda fi ddwy flynedd arall i gasglu'r arian.

Mae ein teulu ni yn siarad Cymraeg ac rydw i a fy ffrindiau yn hoffi siarad Cymraeg bob dydd. Rydw i'n meddwl ei bod hi'n bwysig iawn i ni ddefnyddio'r iaith achos ni, y bobl ifanc, sy'n mynd i gadw'r iaith yn fyw ar gyfer y dyfodol. Ond mae'n gas gyda fi siarad Cymraeg gyda hen bobl achos dydw i ddim yn eu deall nhw – maen nhw'n siarad Cymraeg hen ffasiwn.

**Rhiannon**

Mae'n gas gen i fynd ar wyliau gyda'r teulu oherwydd mae teulu mawr gyda ni ac mae fy mrawd a fy chwaer ddeg mlynedd yn ifancach na fi. Maen nhw bob amser eisiau gwneud gweithgareddau plant bach, fel adeiladu castell tywod. Nawr dw i'n hoffi mynd ar wyliau gyda ffrindiau. Wedyn rydyn ni'n gallu mynd i'r disgo a gwrando ar y bandiau yn y tafarnau gyda'r nos.

Ar ddydd Sadwrn a dydd Sul rydw i wrth fy modd yn gweithio ar y til yn Tesco. Fodd bynnag, dw i ddim yn mwynhau gweithio yn yr adran llysiau a ffrwythau achos mae'r bagiau o datws yn drwm ac yn frwnt a budr. I fi'r peth mwyaf pwysig am weithio ydy ei fod yn rhoi cyfle i chi ddatblygu sgiliau newydd ac mae'n ddefnyddiol iawn ar gyfer eich *CV*.

Rydw i'n dysgu Cymraeg yn yr ysgol ac rydw i'n mwynhau siarad Cymraeg yn y dosbarth a gyda fy athrawes. Mae hi'n dweud fy mod i yn siarad Cymraeg yn dda iawn. Wedyn ar nos Sadwrn dw i'n hoffi mynd i'r disgo yn y dref ac yno dw i'n cyfarfod pobl ifanc sy'n mynd i'r ysgol Uwchradd Gymraeg. Ond dydyn nhw ddim yn fodlon siarad Cymraeg gyda fi – maen nhw'n gwneud i fi deimlo fy mod i ddim cystal Cymraes â nhw.
Mae siarad Cymraeg yn bwysig iawn i fi achos rydw i'n Gymraes ac wrth gwrs Cymraeg ydy iaith Cymru.

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig
*Examiner only*

(i) Mae gan Iwan a Rhiannon bethau da a phethau negyddol i ddweud am y 3 phwnc. Llenwch y gridiau **yn Gymraeg** Cofiwch gynnwys y pwyntiau perthnasol yn unig. Peidiwch â chopïo brawddegau o'r darn darllen.
*Iwan and Rhiannon have positive and negative things to say about the 3 subjects. Complete the grids* ***in Welsh****. Remember to include only the relevant points. Don't copy sentences from the reading passages.* [24]

| | |
|---|---|
| **Iwan** | |
| Gwyliau | - Hoffi nawr ..........<br>- Pam? ..........<br>- Ddim yn hoffi nawr ..........<br>- Pam? .......... |
| Gwaith rhan-amser | - Pethau mae e'n hoffi ..........<br>- Pam? ..........<br>- Pethau dydy e ddim yn hoffi ..........<br>- Pam? .......... |
| Siarad Cymraeg | - Pethau da ..........<br>- Pam? ..........<br>- Pethau negyddol ..........<br>- Pam? .......... |
| **Rhiannon** | |
| Gwyliau | - Hoffi nawr ..........<br>- Pam? ..........<br>- Ddim yn hoffi nawr ..........<br>- Pam? .......... |
| Gwaith rhan-amser | - Pethau mae hi'n hoffi ..........<br>- Pam? ..........<br>- Pethau dydy hi ddim yn hoffi ..........<br>- Pam? .......... |
| Siarad Cymraeg | - Pethau da ..........<br>- Pam? ..........<br>- Pethau negyddol ..........<br>- Pam? .......... |

www.xtrapapers.com





(ii) Dewiswch beth ydych chi'n meddwl ydy'r pwynt gorau yn y darnau a rhowch eich rhesymau personol chi am eich dewis.
*Choose what you think is the best point made in the passages and give your personal reasons for choosing it.* [✓ = 3]

..........

..........

..........

(iii) Dewiswch y pwynt dydych chi ddim yn hoffi yn y darnau a rhowch eich rhesymau personol chi am eich dewis.
*Choose the point that you don't like in the passages and give your personal reasons for choosing it.* [✓ = 3]

..........

..........

..........

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig
*Examiner only*

**4.** Ysgrifennwch ar **un** o'r canlynol (tua 150 o eiriau).
*Write on **one** of the following (about 150 words).* [10 + ✓ = 10] = **[20]**

(i) Gwaith elusennol – gwerthfawr neu wastraff amser.
*Charity work – valuable or a waste of time.*

(ii) Fy ardal i – lle gwych i bobl ifanc.
*My district – a great place for young people.*

(iii) Mae Sêr Cymru bob amser yn **codi proffil Cymru** yn y byd.
*Stars from Wales always **raise Wales' profile** in the world.*

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig
*Examiner only*

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig
*Examiner only*